**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Rebecca Evans AC
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Awst 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet, ac annwyl Weinidog

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor fore dydd Iau 9 Tachwedd i roi tystiolaeth yn ymwneud â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Disgwylir i'r sesiwn dystiolaeth bara dwy awr a chaiff ei chynnal yn y Senedd, Bae Caerdydd. Bydd y Clerc yn cadarnhau'r amser a'r lleoliad yn agosach at y dyddiad.

Rydym wedi cael gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid sy'n nodi'r egwyddorion y mae wedi cytuno arnynt o ran gwaith craffu ariannol, ynghyd â nifer o feysydd yr hoffent weld pwyllgorau yn canolbwyntio arnynt o ran eu gwaith craffu. Er hwylustod, mae copi o'r llythyr wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am y materion cyllidebol a amlygir yn Atodiad 2 i'r llythyr hwn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu papur dwyieithog i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r materion hyn erbyn dydd Iau 26 Hydref.

Yn gywir

**Dai Lloyd AC/AM**
Cadeirydd/Chair

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Atodiad 1

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

20 Gorffennaf 2017

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

Yn ein cyfarfod ar 19 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ei ddull o graffu ar y gyllideb. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i ystyried sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf rhesymegol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

Fel y gwyddoch dyma'r flwyddyn gyntaf y byddwn yn craffu ar y gyllideb ddrafft o dan y Rheolau Sefydlog diwygiedig a'r protocol cysylltiedig. Rwyf wedi trafod hyn gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau yn fforwm y Cadeiryddion ar 12 Gorffennaf.

**Rhoi sylw i'r gyllideb**

Rydym wedi cytuno i barhau â'r dull a ddilynwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, lle mae craffu ar y gyllideb yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** - edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;

- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?
- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y.) canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

Yn dilyn digwyddiad i randdeiliaid yng ngogledd Cymru, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
- *Dull gweithredu o ran gwariant ataliol a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau. (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru ar y galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar)*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
- *Polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi a lliniaru effeithiau'r diwygiadau i'r gyfundrefn les*
- *Gwaith cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gadael yr UE*
- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau trethu a benthyca newydd*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o bennu blaenoriaethau a dyraniadau'r gyllideb*
- *Sut y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisi*

Anogir chi i ddefnyddio rhai o'r meysydd hyn fel ffocws eich gwaith craffu ar y gyllideb.

**Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft**

Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ran yr holl Bwyllgorau yn ystod toriad yr haf a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu gyda chi yn yr hydref er mwyn helpu eich gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.

**Amserlen**

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'r dyddiadau ar gyfer y gyllideb ddrafft bellach wedi'u cytuno fel a ganlyn:

- Gosod amlinelliad o'r Gyllideb Ddrafft – 3 Hydref
- Gosod y Gyllideb Ddrafft fanwl – 24 Hydref
- Dyddiad cau ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cyllid - 28 Tachwedd
- *Y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft – 5 Rhagfyr*
- Cyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol – 19 Rhagfyr

Fel y gwyddoch mae'r darpariaethau mewn perthynas ag adrodd gan bwyllgorau polisi wedi newid, ac rydych yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hun yn awr (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft. Fel Pwyllgor, rydym yn ystyried sut y gallwn gynnal rôl arolygu strategol o waith craffu ariannol, ond yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso ichi gysylltu â Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid ar 0300 200 6372, neu Bethan.Davies@Cynulliad.Cymru

Yn gywir



**Simon Thomas**

**Cadeirydd**

Atodiad 2

**Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lywio'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2018-19.**

**Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer 2018-19 fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.
- Dyraniadau dangosol y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer 2019-20.
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau ers Cyllideb Ddrafft 2018-19 ac eglurhad ohonynt, ac ers y gyllideb atodol gyntaf (Mehefin 2017).

**Polisïau allweddol**

Yn ogystal â'r pedair thema arferol o werth am arian, blaenoriaethu, gwariant ataliol a fforddiadwyedd, byddem yn arbennig o awyddus o gael gwybodaeth am y polisïau a'r materion a ganlyn:

Iechyd meddwl

- y gyllideb a ddyrannwyd ar wasanaethau iechyd meddwl;
- y dyraniadau ar gyfer cyflwyno'r strategaeth a'r cynllun cyflenwi iechyd meddwl;
- y gyllideb a ddyrannwyd ar wasanaethau iechyd meddwl ar ystâd carchar;
- patrymau galw a gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl yn y pum mlynedd diwethaf;
- rhagamcanion ar gyfer y galw a'r gwariant yn y dyfodol;

- manylion am neilltuo'r gyllideb iechyd meddwl, gan gynnwys y lefel lle mae'n cael ei gosod, diffinio beth a geir ynddi, i ba raddau y mae wedi penderfynu gwario ar iechyd meddwl; a diben a gwerth y neilltuo a'r cynlluniau ar gyfer ei dyfodol.

Ariannu newid trawsnewidiol

- barn ar ba mor effeithiol yw dulliau ariannu presennol yn ysgogi newid trawsnewidiol ar lefel genedlaethol;
- parodrwydd/cynlluniau i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei chyllideb i gymryd mwy o ran a darparu cyfeiriad cryfach wrth ysgogi newid;
- unrhyw gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer technoleg a seilwaith i gefnogi ansawdd ac effeithlonrwydd;
- barn ar sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am wariant ataliol tra'n mynd i'r afael â phwysau costau o ddydd i ddydd mewn ffordd effeithiol.

Perfformiad ariannol gan fyrddau iechyd lleol ac anghydraddoldebau iechyd

- y wybodaeth ddiweddaraf am y pedwar bwrdd iechyd â fethodd â chyflawni eu dyletswyddau ariannol a'r dulliau sydd ar waith ar gyfer monitro cynnydd;
- manylion am pryd y caiff adolygiad Llywodraeth Cymru o'r fformiwla ariannu ar gyfer byrddau iechyd er mwyn sicrhau tegwch ledled Cymru ei gwblhau;
- ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar weithredu Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Pwysau'r gweithlu

- manylion am y pwysau penodol a phrinder staff, a chynlluniau ariannol pellach i fynd i'r afael â hyn;
- manylion am y cynlluniau ar gyfer sgiliau newydd a llwybrau gyrfa ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw ddyraniadau yn y cyswllt hwn (argymhellir yn adroddiad yr Adolygiad Interim Seneddol fod angen cynllunio'r rhain ar raddfa fawr yn ddi-oed);
- unrhyw waith cynllunio/asesiad a gynhelir ar anghenion cyllido yn y dyfodol ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, er enghraifft o ystyried y newidiadau posibl i gostau staff asiantaeth.

Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol

- dyraniadau cyllid i annog integreiddio e.e. datblygu gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd/gofal cymdeithasol sy'n gallu gweithio ar draws ffiniau gwasanaethau.

Chwaraeon Cymru

- cyllid a ddyrannwyd i Chwaraeon Cymru, monitro gwariant ac a yw'r dyraniadau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni canlyniadau i bobl yng Nghymru.